

Cyfarfod y Grŵp Trawsbleidiol ar Hawliau Defnyddwyr

- Cynhaliwyd ar Teams

Yn bresennol:

Sioned Williams	Aelod o'r Senedd, Cadeirydd
Dave Mendes da Costa	Cyngor ar Bopeth
Nicola Evans	Swyddfa Comisiynydd Pobl Hŷn
Justin McMullen	Which?
Nicole	Which?
Jessica Tye	Awdurdod Safonau Hysbysebu
Amy Dutton	Cyngor ar Bopeth Cymru
Anwen Jones	Cyngor ar Bopeth Cymru
Margaret Kinsey	Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili

Cyflwyniad

Croesawodd Sioned Williams AS aelodau a siaradwyr gwadd i gyfarfod cyntaf y Grŵp Trawsbleidiol am y flwyddyn.

Cyflwyniad gan Which?

Amlinellodd Justin y gwaith y mae Which? yn ei wneud ar gynaliadwyedd, gan nodi bod gwella inswleiddio cartrefi yn gwella cynhesrwydd a chyfforddusrwydd, yn lleihau biliau ynni, ac yn cefnogi aelwydydd i newid i wres glân. Amlygodd hefyd fod llawer o aelwydydd (a landlordiaid llai) yn wynebu rhwystrau sylweddol o ran gwella effeithlonrwydd ynni eu heiddo. Nododd fod diffyg ymwybyddiaeth, gwybodaeth a chyngor, gan ychwanegu bod pobl am gael mwy o wybodaeth sydd wedi'i theilwra i'w hanghenion.

Soniodd am yr anhawster i ddod o hyd i osodwyr cymwys a dibynadwy gan fod y maes hwn yn un cymhleth i osodwyr ac felly mae defnyddwyr yn "llugoer" am y gwaith neu'n teimlo'n bryderus ynghylch talu am inswleiddio.

Dywedodd Justin fod Which? yn galw ar lywodraethau i wella ymwybyddiaeth drwy ymgyrchoedd cyhoeddus a thrwy weithio gyda busnesau a sefydliadau sy'n ymgysylltu â chartrefi ar adegau pan fyddant yn debygol o ystyried gwella inswleiddio. Mae Which? hefyd yn galw ar lywodraethau i wella dibynadwyedd a pherthnasedd Tystysgrifau Perfformiad Ynni. Yn ogystal, mae'n galw am i rwydwaith o Siopau Un Stop achrededig gael ei sefydlu i ddarparu cyngor mwy teilwredig i gartrefi. Ar ben hynny, mae Which? yn galw ar lywodraethau i bennu erbyn pryd y bydd yn rhaid i bob gosodwr yn y sectorau inswleiddio a gwresogi glân gael ei ardystio a sicrhau bod y cynlluniau'n cyrraedd safonau uchel. Awgrymodd y dylid pennu erbyn pryd y bydd yn rhaid i osodwyr gael eu hardystio fel bod y

cynlluniau'n cyrraedd safonau uchel. Yn olaf, mae Which? yn galw ar lywodraethau i sicrhau bod gan Safonau Masnach yr adnoddau i fynd i'r afael â masnachwyr twyllodrus.

Cyflwynodd Nicole fynegai [Priority Places for Insulation](#) Which? ar gyfer Cymru. Nod y mynegai yw nodi amgylchiadau cymharol gwahanol ardaloedd lleol o ran yr angen am inswleiddio. Ychwanegodd fod rhai o alwadau polisi Which? yn gofyn am ddealltwriaeth fanylach o anghenion lleol.

Mynegodd Nicole yr angen i ystyried y gwahanol ffactorau o ran stoc tai, megis lefelau inswleiddio (data EPC), mathau o eiddo ac oedran eiddo (data EPC) a meddwl am y bobl sy'n byw yn y cartrefi a'u hincwm, eu cyflyrau iechyd a'u hoedran. At hynny, o ran amgylchiadau cartrefi, amlygodd bwysigrwydd ffactorau megis lefel incwm fel procsi ar gyfer tloidi tanwydd (data SYG), cyflyrau iechyd (data GIG Cymru) ac oedran y boblogaeth (data SYG).

Nododd Nicole fod y mynegai inswleiddio wedi canfod bod y lleoedd â blaenoriaeth ar gyfer inswleiddio i'w cael yn ne Cymru yn bennaf. Yn y gogledd, mae'r ardaloedd â blaenoriaeth ar wasgar yma ac acw ar hyd arfordir lle mae inswleiddio'r cyrchfannau gwyliau Fictoraidd, a adawyd tan nawr, yn wael iawn. Dywedodd Nicole fod y mynegai yn rhoi cipolwg defnyddiol o bethau ar lefel etholaeth, gan gynnwys sgoriau manwl a lefel yr angen am inswleiddio eiddo mewn ardaloedd. Pwysleisiodd Nicole ei bod yn hollbwysig i lefel y gosodwyr inswleiddio lleol gael ei harchwilio ochr yn ochr ag angen. Canolrif y cwmnïau fesul 100,000 o bobl yng Nghymru yw 17, ac o'r rhain mae 14 yn osodwyr ardystiedig. Ceir rhagor o wybodaeth am eu canfyddiadau ar gyfer Cymru yn yr [erthygl](#) hon.

Cyflwyniad Cyngor ar Bopeth: Gwasanaethau Defnyddwyr

Gwnaeth Dave Mendes de Costa, Prif Swyddog Polisi o dîm Gwasanaethau Defnyddwyr Cyngor ar Bopeth, amlinellu'r meysydd gwaith blaenoriaeth megis fforddiadwyedd mewn marchnadoedd hanfodol, nodi arferion a chanlyniadau gwael a mynd i'r afael â nhw, a diwygio i roi'r defnyddiwr wrth wraidd y marchnadoedd.

Mae nodi arferion a chanlyniadau gwael a mynd i'r afael â nhw yn un o brif flaenoriaethau Cyngor ar Bopeth. Nododd y problemau mewn gwasanaethau hanfodol a chyffredin eu defnydd megis prisio Telco gyda chodiadau prisiau ganol contract a chytundebau cudd ac yswiriant gyda phrisiau uchel a phrisiau gwahaniaethol gan fod prisiau'n debygol o fod yn uwch i bobl o liw. Yn ogystal, mae Cyngor ar Bopeth wedi gweld cynnydd o 76% yn nifer y bobl sy'n ceisio cymorth gyda materion Prynwch Nawr Talwch Wedyn – mae CA wedi bod yn pwyso am well rheoleiddio yn y sector hwn ers blynyddoedd lawer.

Sylwadau ac UFA

Cyfeiriodd Nicola Evans o Swyddfa'r Comisiynydd Pobl Hŷn at eu ffrwd waith ar grwpiau ymylol gan fod y mater yn broblem i nifer o bobl hŷn sy'n agored i niwed. Nododd Jessica Tye fod marchnadoedd penodol yn effeithio ar grwpiau ymylol a bod ASA yn debygol o gael cwynion gan grwpiau ymylol.

Mewn unrhyw fusnes arall, dywedodd Jessica Tye o ASA y byddai'n hapus i gyflwyno trosolwg o'u gwaith diweddar yng nghyfarfod nesaf y Grŵp Trawsbleidiol. Diolchodd y Cadeirydd i'r siaradwyr am eu cyfraniadau a diolchodd i'r Aelodau am ddod i'r cyfarfod.